Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

5 Hydref 2020

Annwyl Mark

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, fel y'u diwygiwyd

Yn ein cyfarfod ar 28 Medi, gwnaethom drafod rheoliadau sy'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y prif reoliadau).

Mae'r darpariaethau canlynol o'r prif reoliadau yn gosod cyfyngiadau ar ddinasyddion oni bai bod esgus rhesymol yn bodoli:

Rheoliad 2A (Aelwydydd estynedig),
Rheoliad 12A (Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus),
Rheoliad 12B (Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do)
Rheoliad 14 (Cyfyngiad ar gynulliadau dan do)
Rheoliad 14A (Cyfyngiad ar gynulliadau yn yr awyr agored)
Rheoliad 14B (Cyfyngu ar drefnu digwyddiadau cerddorol penodol sydd heb eu trwyddedu)
Paragraff 3 o Atodlen 4 (Gofyniad i aros o fewn ardal diogelu iechyd leol)
Paragraff 4 o Atodlen 4 (Gofyniad i beidio â mynd i ardal diogelu iechyd leol)
Paragraff 3 o Atodlen 5 (Effaith hysbysiad cau mangre)

Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn esgus rhesymol. Rydym yn cydnabod na fyddai'n bosibl darparu rhestr gynhwysfawr o esgusodion rhesymol mewn deddfwriaeth.

Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn ein cyfarfod (gweler paragraffau 23-28 o'r trawsgrifiad), credwn y byddai'n werth darparu rhywfaint o ganllawiau pellach (yn ogystal â'r Cwestiynau Cyffredin sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru) sy'n trafod rhai o'r senarios posibl a allai helpu ein hetholwyr i ddeall yr hyn y gallant ac na allant ei wneud.

Credwn y byddai croeso i ganllawiau o'r fath o ystyried y cosbau posibl o beidio â chydymffurfio, a hefyd oherwydd y gallai helpu i leihau lledaeniad posibl y coronafeirws ymysg y boblogaeth leol.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Felly, byddem yn croesawu eich barn ynghylch darparu canllawiau o'r fath cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English